

“Naill ai... neu”

“Ac os yw dy law dde yn achos cwmp it, tor hi ymaith.” (adn. 30)

Beth am ddarllen Mathew 5:21–30 ac yna myfyrio

Mae angen bod yn glir ynglŷn ag un peth. Does ond dwy dynged yn disgwyl dyn. Enw’r naill yw y nefoedd, y llall uffern. Yn yr adran heddiw, mae’r Arglwydd yn cyflwyno sialens ddifrifol i ni. Mae’n egluro fod uffern yn ‘naill ai... neu’. Naill ai yr ydym yn rhoi hebio ein ffordd bechadurus o fyw, neu yr ydym yn wynebu uffern. Mae’r geiriau yma yn eiriau difrifol iawn, a pheth gwirion fuasai eu hanwybyddu. Os ydym yn mynnu dal gafael yn ein ffyrdd pechadurus, yna ni welwn y nefoedd. Os ydym am feddiannu’r nefoedd, rhaid penderfynu i ollwng gafael ar rai pethau.

Yr ydym yn defnyddio ein llygaid i weld y pethau sydd yn agosáu atom ac yna gallwn eu meddiannu. Felly, rhaid i ni yn ysbrydol fod ar wylidwriaeth, oherwydd mae gweld yn creu chwant. Mae chwant yn creu emosiwn, ac yn y frwydr rhwng yr ewyllys a’r emosiwn, mae emosiwn bron bob amser yn ennill. Y llaw yw’r aelod sydd yn cymryd gafael, yr aelod sydd yn meddiannu yr hyn yr ydym ei eisiau. Peidiwch byth â meddiannu dim heb sylweddoli y gall pob peth eich meddiannu chi.

Yr hyn y mae Iesu yn ei ddweud yn yr adran yma yw hyn: rhaid i ni wrth ysbryd disgybledig sydd yn gwrthod y pethau hynny y mae’r nefoedd yn eu gwrthod. Rhaid bod yn bendant os ydym o ddifrif am y nefoedd, oherwydd, fel y dywedais eisoes, mae’n bywyd wedi marwolaeth yn dibynnu i raddau ar yr hyn yr ydym yn ei geisio yn y byd yma. Tybiaf ei bod yn wir i ddweud na fydd neb yn y nefoedd yn edifar am unrhyw beth y bydd iddynt ei adael yn y byd yma, pa mor eithafol bynnag y bu’r gadael hynny. Mi fydd trysor y nefoedd bob amser yn rhagori ar unrhyw drysor oedd gan y byd i’w gynnig.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Dat. 20:10; 20:15; 2:6–27; 1 Cor. 6:9–10

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut y disgrifir uffern yn Datguddiad?
2. A beth y cymherir hyn?

Gweddi

O Dad cariadlon a grasol, mae dy eiriau yn torri i mewn i’w calon fel cleddyf. Eto, yr wyf yn gwybod eu bod yn wir. Cynorthwya fi i dorri i ffwrdd o’w bywyd y pethau hynny nad ydynt yn perthyn i ti. Yn enw Iesu Grist rwy’n gofyn hyn. Amen.